tafod elái

MEHEFIN 2019

Rhif 338

Pris 80c

Eisteddfod i'w chofio

Côr Adran Bro Taf yn ennill y gystadleuaeth Côr Bl. 9 ac iau (Adran)

Llongyfarchiadau i bawb o'r ardal gymerodd ran yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Roeddem yn ffodus i gael gwledd o berfformio mewn neuadd arbennig yng Nghanolfan y Mileniwm. Diolch i'r holl athrawon a hyfforddwyr fu'n cefnogi'r cystadleuwyr brwd. Pob lwc i Daniel Jones yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel.

Diweddglo "Troi Heddiw yn Ddoe",
sioe cynradd ysbrydoledig Eisteddfod yr Urdd eleni

Datblygiadau yn Ffynnon Taf

Mae'r gwaith wedi dechrau ar droi ardal diwydiannol yr hen Forgemasters yn Ffynnnon Taf yn gartref newydd i drenau trydan cymoedd y de. Mae Trafnidaieth Cymru yn buddsoddi £100m ar y safle er mwyn gwneud lle i gadw a chynnal 36 o drenau newydd. Bydd dros 80 o bobl yn gweithio yno a bydd criwiau'r trenau yn cychwyn oddi yno.

Gwobrau Addysgu

Llongyfarchiadau i Mark, Morgan, Meisgyn, ar ennill Gwobr Addysgu Proffesiynol Cymru 2019 am ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffordd sy'n ysbrydoli. Mae Mark yn dysgu yn Ysgol Pen-y-dre, Merthyr Tudful ac mae'n cael ei ddisgrifio fel un mewn miliwn. Mae'n cyflawni'r safonau uchaf ac mae ei arweinyddiaeth i'w weld yn yr ymchwydd ym mhoblogrwydd Cymraeg fel pwnc, ac yn llwyddiant ei ddisgyblion mewn arholiadau.

Mae wedi cael effaith ar yr ysgol mewn cymaint o ffyrdd ac mae wedi newid agweddau tuag at ei bwnc am byth. Mae Mark wedi bod yn chwa o awyr iach yn yr ysgol ac yn y gymuned, gan annog disgyblion ac oedolion o bob gallu i siarad Cymraeg ym mhle bynnag a pha bryd bynnag y gallant. Mae'r disgyblion yn addoli Mark, gan ei alw'n ysbrydoliaeth, ac yn rhywun sy'n malio amdanynt.

Llongyfarchiadau hefyd i Rhian Ellis, Pennaeth Ysgol y Cymer, ar ennill Gwobr Pennaeth y Flwyddyn. Mae Rhian yn berson ysbrydoledig, diymhongar ac yn un sy'n hawdd siarad â hi. Mae wedi meithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd o fewn cymunedau yn ystod ei blynyddoedd o wasanaeth.

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Gwellhad
Da yw gweld Gwilym Williams, Maes y Sarn, nôl yn ddiogel ac yn cryfhau wedi iddo fynd yn sâl tra ar ei wyliau. Bu'n rhaid iddo dreulio rhai dyddiau yn yr ysbyty yn Reykjavík lle mae'n dweud iddo gael gofal arbennig. Ein dymuniadau gorau, Gwilym.

Wil Hedd
Mae Wil Hedd, Bronllwyn yn gwella ar ôl cael triniaeth apendics yn yr ysbyty'n ddiweddar ac mae ei ffrindie yn y pentre ac yn ysgol Creigiau yn falch o'i weld yn ôl yn chware tenis a chriced ar Barc y Dwrlyn. Dal ati i wella Hedd.

Yr Orsedd
Mae Gorsedd y Beirdd wedi cyhoeddi rhestr o'r unigolion fydd yn cael eu hanrhydeddu yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy 2019 ac yn eu plith mae Catrin Finch, y Wisg Las, a Rowland Wynne, y Wisg Werdd. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Gwenan Gibbard yng Nghlwb y Dwrlyn
Roedd yna gynulleidfa niferus yn y Clwb Rygbi ar Fai 17 i groesawu'r delynores a'r gantores ddawnus Gwenan Gibbard, o Bwllheli, i'n plith. Fe'n cyfareddwyd oll gan ei rhaglen, gan brysurdeb y bysedd ar y delyn fach ac, wrth gwrs, ei llais cynnes a chyfoethog.

Wrth ei chyflwyno, soniodd y cadeirydd, Eleri Jones, un mor amryddawn ydy Gwenan – yn gweithio bellach i gwmni Sain ac wedi cael gyrfa academaidd ym Mangor a'r Academi yn Llundain, cyhoeddi sawl CD, bu'n canu ar sawl cyfandir, mae'n hyfforddi telynorion ac yn gwneud ymchwil ar hyn o bryd i rai o'r merched oedd yn canu pop yn 60'au'r ganrif ddiwethaf. Ac wrth groesawu Gwenan, estynnwyd croeso hefyd i'w mam, Mair, un arall sydd wedi cefnogi gweithgareddau diwylliannol tebyg i rai ei merch.

Yn ei rhaglen, cawsom glywed Gwenan yn canu rhai o'r baledi a cherddi sydd yng nghasgliad enfawr gwaith ymchwil Phyllis Kinney a'r diweddar Ddoctor Meredydd Evans yn y Llyfrgell Genedlaethol. Y llynedd cafodd Gwenan ganiatâd i bori drwy rai o'r ffeiliau niferus sydd heb eu catalogio hyd yma, ond wedi eu cyflwyno gan Merêd a Phyllis yn hynod o drefnus, meddai hi.

Cyflwynodd hefyd rai o ganeuon anghyfarwydd morwyr Penrhyn Llŷn – ac roedd o leiaf dri o gyn-drigolion Edern yn y gynulleidfa. Yr un mor hudolus oedd rhai o'i chyflwyniadau'n seiliedig ar ei theithiau i Batagonia. Prin bod angen ychwanegu bod ei gosodiadau cerdd-dant hefyd yn bleser pur i'w gwrando. Ac ni chafodd drafferth o gwbl i gymell y gynulleidfa ymuno â hi yma a thraw.

Hwn oedd y tro cyntaf i Gwenan erioed fod ym Mhentyrch, meddai hi. Hyderwn y daw hi eto ar ei thro. Roedd ganddi ffans yn yr ardal cyn hyn – mae ganddi lawer mwy erbyn hyn. MR

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

'Heno' yn darlledu o siop trin gwallt Lloyds
Daeth camerâu *Heno* i helpu Lloyd Griffiths a'i staff yn y siop trin gwallt i ddathlu hanner can mlynedd o dorri gwallt yn Nhonyrefail. Mae Betsi Griffiths wedi bod yn mynd yna o'r cychwyn a chafodd gyfle i eistedd yn y gadair i gael trin ei gwallt o flaen y camerâu. Mae Lloyd yn gefnogol iawn i nifer o achosion yn Nhonyrefail a chawson ni gyfraniadau hael ganddo wrth godi arian ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn ddiweddar. Llongyfarchiadau Lloyd!

Betsi Griffiths

Lloyd gyda Rhys, un o'i gwsmeriaid

Noson Sgwrsio
Mae'r Noson Sgwrsio'n mynd o nerth i nerth. Ymunwch â ni nesaf ar nos Fawrth, 11 Mehefin yng Nghlwb Rygbi Tonyrefail am 7pm.

Enillwyr yr Eisteddfod

Morus Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr 1af Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl9 ac iau

Anya Grunewald, Ysgol Dolau, 1af Dawns Hip Hop/ Stryd/Disgo Bl6 ac Iau

Kai Easter, Ysgol Gyfun Garth Olwg, 1af Dawns Hip Hop/Stryd/Disgo Bl 7 8 a 9

Adran Bro Taf 1af Detholiad o Ddrama Gerdd Bl. 7 a dan 25 oed

Adran Bro Taf
1af Dawns Stepio Bl. 7 a dan 25 oed

Iestyn Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr 1af Stand Yp 14 - 25 oed

Daniel Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr 1af Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl. 10 a dan 25 oed

Enillwyr yr Eisteddfod

Erin, Alys a Mared, Ysgol Gwaelod y Garth, 1af Ensemble Offerynnol Bl 6 ac iau

Erin Fflur Jardine, Ysgol Gwaelod y Garth, 1af Unawd Telyn Bl6 ac iau.

Molly Andrews, Ysgol Creigiau, 1af Llefaru Unigol Bl 3 a 4 (D)

Yola Kwok, Ysgol Dolau. 1af Unawd Piano Bl 6 ac iau

Adran Bro Taf
1af Dawns Stepio Grŵp Bl6 ac iau

Ysgol Gwaelod y Garth
1af Parti Unsain Bl 6 ac iau

Elen Griffiths, Ysgol Gyfun Garth Olwg, 1af Unawd Chwythbrennau

Charlotte Kwok, Ysgol Gyfun y Pant - 1af Unawd Piano Bl 7 – 9

Ysgol Llantrisant

Tennis

Llongyfarchiadau mawr i Liam, Amelia, Noah a Ffion am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth Tennis i Ysgolion Cynradd ar yr 20fed o Fai. Fe ddaeth y pedwar yn ail yn y gystadleuaeth i ddyblau cymysg.

Y Côr

Cafwyd perfformiad hyfryd gan y côr yn Y Gŵyl – Gŵyl Gymunedol a gynhaliwyd ym Mhontyclun yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb a ddaeth i gefnogi

Hwyl Fawr!
Hwyl fawr a diolch yn fawr i Mr Steffan Davies sydd wedi bod yn fyfyriwyr yn Nosbarth 8 eleni. Pob lwc iddo ar ei swydd newydd yn Ysgol y Fro.

Blwyddyn 3
Ar y 24ain o Fai, bu disgyblion Blwyddyn 3 yn ffilmio'r rhaglen 'AHOI' ym Mae Caerdydd. Cadwch lygad allan amdanynt ar S4C yn ystod yr wythnosau nesaf!

Print Lliw Bl. 2 ac iau: 1af Theo Western, Ysgol Gynradd Creigiau

Blwyddyn 6

Fe ddaeth Mr Coleman ar ymweliad â Blwyddyn 6 yn ddiweddar, er mwyn trafod teimladau'r disgyblion wrth iddynt baratoi at symud i'r ysgol uwchradd. Rhannodd bamffledi diddorol oedd yn llawn cynghorion ar sut i oroesi'r cyfnod cyffrous hwn. Fe ddaeth hefyd a dau ŵy Pasg – i Elinor ac Alfie, sef enillwyr y gystadleuaeth ysgrifennu cerdd am Y Pasg. Llongyfarchiadau i'r ddau.

Dinasyddion Doeth

Mae'r Dinasyddion Doeth wedi bod yn brysur yn ddiweddar. Mewn gwasanaeth arbennig fe fuon nhw'n lledaenu'r neges am bwysigrwydd ail-gylchu ac mewn gwasanaeth arall, mi fuon nhw'n rhannu neges Dydd Ewyllys Da'r Urdd â gweddill disgyblion yr ysgol. Da iawn chi blant!

Pêl-droedwyr dawnus
Dyma'r tîm a lwyddodd i gyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth bêl-droed yr Urdd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Er nad enillon nhw, fe chwaraeon nhw'n ardderchog.



Côr Godre'r Garth

Os nad oeddech wedi cael cyfle i ddod i Ymarfer Agored y côr mae croeso i aelodau newydd ymuno â'r côr am 7.30yh bob nos Sul yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf.

Côr cymysg yw Côr Godre'r Garth sy'n cwrdd yn wythnosol. Ry'n ni'n perfformio mewn gwyliau a chyngherddau, yn teithio ar draws Cymru a thu hwnt, ac yn cystadlu o dro i dro mewn Eisteddfodau a chystadlaethau

www.corgodrergarth.com Ff: 07814893009

NEUADD Y PENTREF EFAIL ISAF

SADWRN MEHEFIN 15

10.00 – 2.00yp

FFAIR GREFFTAU

Crefftau
Planhigion
Cacennau
Raffl a mwy!

Elw at ymchwil Nychdod Cyhyrol
Muscular Dystrophy Research



Ysgol Dolau

Cywaith Menter
Cymerodd pob disgybl ran mewn menter busnes gyda'r bwriad o ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd. Roedd gan bob dosbarth £20 o gyllid ac roedd gofyn i'r disgyblion wneud elw drwy werthu pethau neu wasanaeth. Cynhyrchodd y disgyblion amrywiaeth o bethau, o fwydydd i addurniadau wal. Mwynheuodd bob disgybl y cywaith a chafwyd elw anferthol mewn rhai dosbarthiadau. Da iawn blant!

The Hobbit
Roedd plant yr ysgol yn ddigon ffodus i weld cynhyrchiad o'r sioe The Hobbit yn Neuadd yr ysgol ar ddydd Gwener, 10fed o Fai. Dim ond pedwar actor ac un technegydd oedd yn y cwmni, a theithiodd o'r Alban i fod gyda ni. Serch hynny, roedd y sioe yn llawn hwyl a mwynheuodd y plant bob eiliad o'r stori fywiog. Rydyn ni i gyd yn edrych ymlaen yn fawr iawn at y pantomeim Nadolig, Peter Pan.

Role Play Lane
Aeth dosbarthiadau Derbyn a Reception ar ymweliad i Role Play Lane ar ddydd Iau, Mai 9fed fel gweithgaredd hwylus i gyflwyno'r thema newydd, Y Goedwig Hudol. Hefyd, bu dosbarthiadau blynyddoedd 1 a 2 y ddwy adran yn ymweld â Mountain View Ranch ar y 23ain/24ain o Fai. Cafodd bawb amser gwych ac maen nhw nawr yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd i gefnogi'r dysgu o ddydd i ddydd yn y dosbarth.

Sêr y Sir
Bu cyfle gwych i'r disgyblion talentog a enillodd yn yr eisteddfod sir i ymarfer eu perfformiadau cyn mynd i Fae Caerdydd i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Roedd y cyngerdd, a gynhaliwyd yn Theatr Sony ar nos Iau, 16eg o Fai, Coleg Penybont, yn gyfle i'r disgyblion gael un ymarfer olaf o flaen cynulleidfa. Da iawn i bawb a berfformiodd ar eu gorau a phob hwyl i chi i gyd yn ystod hanner tymor!

Pêl-droed Merched yr Urdd
Ar ôl ennill twnameint pêl-droed Morgannwg Ganol yr Urdd, enillodd ein merched le yn y rownd derfynol genedlaethol yn Aberystwyth. Aeth y merched drwy fel enillwyr y grŵp wedi iddynt ennill pob gêm grŵp i gipio lle yn y chwarteri. Gwnaeth y merched eu gorau ond yn anffodus, collon nhw yn y chwarteri. Rydyn ni'n falch iawn o'u hymdrechion nhw.

Rygbi Merched yr Urdd
Enillodd ein tîm rygbi merched le yn y rownd derfynol genedlaethol wedi iddynt ennill y twrnamaint Morgannwg Ganol. Chwaraeodd y merched 3 gêm grŵp ac aethant drwy i'r rownd nesaf fel enillwyr y grŵp. Roedd y merched yn pasio, rhedeg a chefnogi yn wych ac roedd y gêm yn y chwarteri yn gyffrous dros ben! 5-5 oedd y sgôr ar y chwiban olaf felly bu'n rhaid chwarae amser ychwanegol ar gyfer y gôl euraidd. Roedd y merched yn wych ac roeddent yn anffodus iawn i golli yn erbyn y tîm a aeth, yn y pen draw, i'r rownd derfynol.

Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro 2019

Ensemble Offerynnol Bl 6 ac iau 1af Erin, Alys a Mared, Ysgol Gwaelod y Garth
Unawd Piano Bl 6 ac iau 1af Yola Kwok, Ysgol Dolau. 3ydd Erin Fflur Jardine, Ysgol Gwaelod y Garth.
Llefaru Unigol Bl 3 a 4 (D) 1af Molly Andrews,Ysgol Creigiau
Unawd Telyn Bl6 ac iau. 1af Erin Fflur Jardine, Ysgol Gwaelod y Garth.
Dawns Stepio Grŵp Bl6 ac iau. 1af Adran Bro Taf
Grwp Llefaru Bl6 ac iau.(D) 2il Ysgol Creigiau
Parti Unsain Bl 6 ac iau: 1af Ysgol Gwaelod y Garth
Cyflwyno Alaw Werin Unigol Bl6 ac iau: 3ydd Ela Mai Williams, Ysgol Gwaelod y Garth
Côr Cerdd Dant Bl 6 ac iau. 2il Adran Bro Taf
Unawd Piano Bl 7 – 9 1af Charlotte Kwok, Ysgol Gyfun y Pant
Unawd Chwythbrennau: 1af Elen Griffiths, Ysgol Gyfun Garth Olwg
Côr Bl 9 ac iau (Adran): 1af Adran Bro Taf
Llefaru Unigol Bl. 10 a dan 19 oed: 3ydd Iestyn Jones Ysgol Gyfun Plasmawr
Dawns Hip Hop/Stryd/Disgo Bl6 ac Iau: 1af Anya Grunewald, Ysgol Dolau
Dawns Hip Hop/Stryd/Disgo Bl 7 8 a 9 : 1af Kai Easter, Ysgol Gyfun Garth Olwg
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl9 ac iau: 1af Morus Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr
Dawns Creadigol dan 19 oed: 3ydd Ysgol Llanhari
Ensemble Bl 7 – 9: 2il Adran Bro Taf
Dawns Werin Unigol i Fechgyn Bl. 10 a dan 25 oed: 1af Daniel Jones Ysgol Gyfun Plasmawr
Parti Deusain Bl. 9 ac iau (Adran): 2il Adran Bro Taf
Ensemble Lleisiol Bl. 7-9: 2il Adran Bro Taf
Stand Yp 14 - 25 oed: 1af Iestyn Jones Ysgol Gyfun Plasmawr
Dawns Stepio i Grŵp dan 25 oed: 1af Daniel a Morus, Adran Bro Taf
Dawns Stepio Bl. 7 a dan 25 oed 1af Adran Bro Taf
Dawns Greadigol dan 19 oed:3ydd Ysgol Llanhari
Ymgom Bl. 10 a dan 19 oed: 3ydd Charla, Tom, Eva a Lauren Ysgol Gyfun Garth Olwg
Detholiad o Ddrama Gerdd Bl. 7 a dan 25 oed: 1af Adran Bro Taf, Cylch Pontypridd, Morgannwg Ganol
Print Lliw Bl. 2 ac iau: 1af Theo Western, Ysgol Gynradd Creigiau
Barddoniaeth dan 19 oed (Cerdd Rydd): 3ydd Iestyn Jones Ysgol Gyfun Plasmawr
Cystadleuaeth y Fedal Ddrama Bl. 10 a dan 25 oed: 3ydd Iestyn Gwyn Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr
Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl. 10 a dan 19 oed: 1af Iestyn Jones, Ysgol Gyfun Plasmawr
3ydd Sam Davies, Ysgol Gyfun Garth Olwg
Prosiect Gwyddonol Bl. 7-9 (Unigol/ Grŵp): 1af Gwydd y Garth, Ysgol Gyfun Garth Olwg

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Dafydd Roberts

Ser y Sir
A hithau'n fis Mai mae'n gyfnod Eisteddfod yr Urdd. Llongyfarchiadau i bawb gafodd lwyddiant yn y cylch a'r Sir ac sy'n paratoi i serennu ar lwyfan y genedlaethol. Diolch hefyd i'r holl athrawon sydd wedi bod yn eu paratoi ers sawl wythnos. Gobeithio y gwelwn ni nifer ohonoch chi ar lwyfan Canolfan y Mileniwm!
I baratoi at yr Eisteddfod daeth cannoedd o bobl ynghyd ym Mhenybont ar nos Iau Mai 16 i ddathlu talentau'r ardal. Roedd cynrychiolaeth gref o ardal Llantrisant ar y llwyfan o Ysgolion Llanhari a Llantrisant. Ymysg y perfformiadau roedd grwp dawns Llanhari - wedi eu hyfforddi gan Aimee Marchant o Lantrisant - sy'n gyn ddisgybl yn Llanhari. Cafwyd perfformiadau hefyd gan gôr Ysgol Llantrisant, partion amrywiol ac unawdwyr.

Y Llwybr Beicio
Mae'n ansicr erbyn hyn, a fydd y llwybyr cymunedol ar gyfer cerddwyr a beicio yn cael ei gwblhau. Y cynllun gwreiddiol oedd cysylltu'r llwybr cymunedol sydd yn cyrraedd ardal Penygawsi, gyda'r llwybr beicio rhwng Cross Inn a Thon Teg. Dechreuodd y gwaith o glirio coed yn ystod mis Rhagfyr, ar hyd yr hen reilffordd lle mae'r llwybr i'w osod. Ond yn dilyn anghydfod ynglyn â thir fferm, a gwrthdrawiad rhwng bws ac un o'r pontydd sy'n dal y rheilffordd, mae'r gwaith wedi ei atal. Er bod peth gwaith trwsio bellach wedi ei wneud ar y bont, nid yw'n glir a fydd yr anghydfod ynglyn a'r tir yn cael ei ddatrys.

Y G G G - Gwyl
Brynhawn Sadwrn Mai 18ed fe gynhaliwyd Y Gŵyl ar gaeau Pontyclun. Dyma'r ail flwyddyn iddi gael ei chynnal. Tîm o wirfoddolwyr o Gymdeithas Rhieni ac Athrawon YGGG Llantrisant sydd y tu ôl i'r fenter. Cafwyd perfformiadau cerddorol gan gorau ysgolion Llantrisant, Dolau a Llanhari. Yn ogystal â chôr Tadau Trisant, a nifer o fandiau roc o'r ardal.

Clwb Taicwando
Hyfryd oedd gweld Eve a Belle Htut o Feisgyn yn serenni ar y sgrin fach ddechrau'r mis. Roedd y ddwy yn rhan o eitem ar Newyddion 9 oedd yn rhoi sylw i Bencampwriaethau Taekwondo'r Byd. Mae'r ddwy yn dalentog iawn yn y maes ac yn gobeithio efelychu llwyddiannau Jade Jones a Lauren Williams – dwy Gymraes arall sydd wedi cyrraedd y brig.

Hen Neuadd y Dref, Llantrisant
Wrth i'r gwaith fynd rhagddo o adfer yr hen neuadd yn ganolfan ymwelwyr a threftadaeth trefnwyd diwrnod agored ddydd Sadwrn, Ebrill 13 er mwyn rhannu gwybodaeth ag aelodau'r cyhoedd. Mae'r gwaith adeiladu yn prysur ddod i ben a'r gobaith yw agor y ganolfan ar ei newydd wedd dros benwythnos gŵyl y banc ym Mis Awst. Fel rhan o'r gwaith codi arian bydd cyngerdd yn cael ei chynnal yn eglwys y plwyf nos Wener, Mehefin 7fed. Ymhlith yr artistiaid y mae côr YGGG Llantrisant, Côr cymysg 'Noteworthy' a band pres Awyrlu St. Athan. Bydd y noson yn cael ei chyflwyno gan Dean Powell.

Gohebydd mis nesaf: Siân Llewellyn

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Cyfarchion
Llongyfarchiadau i Margaret Francis, Parc Prospect sy 'n dathlu pen-blwydd arbennig a hefyd dymuniadau am wellhad buan ar ôl derbyn mwy o lawdriniaeth ar ei llygaid.

Llenor
Dymuniadau gorau ar ei llwyddiant yng Ngŵyl Haf Merched y Wawr i Anna Jones, Abersoch, gynt o Bontypridd. Enillodd Anna Dlws y Llenor ym Machynlleth ym mis Mai.

Merched y Wawr
Dewch i Festri Capel Sardis nos Iau 13eg o Fehefin am 7.30 pan fydd un o'n haelodau Mrs. Dorothy Todd yn adrodd hanes ei mordeithiau niferus.
Byddwn yn gorffen y tymor wrth fynd ar ein taith gerdded flynyddol yng nghwmni Glyn Hughes. Byddwn yn cwrdd nos Iau 11eg o Orffennaf am 6.00 p.m. wrth dafarn Y Brynffynnon, Llanwynno. Swper i ddilyn ar ôl y cerdded!

Clwb y Bont
Yn dilyn ymgyrch dros Gymru gyfan dros y misoedd diwethaf i boblogeiddio'r gofeb 'Cofiwch Dryweryn' fe fydd aelodau a ffrindiau'r Clwb yn peintio'r geiriau yng Nghlwb y Bont yn ystod wythnos olaf mis Mai.
Cofiwch am y cwis wythnosol bob nos Fawrth am 8.00p.m. Diolch i Aled Thomas, Graigwen am ei waith fel cwis feistr.

Clwb llyfre
Nos Fawrth, Mehefin 18fed fe fydd aelodau'r Clwb Llyfre yn trafod clasuron Cymraeg o'r gorffennol. Sgwn i pa gyfrolau fydd dan sylw?
Nofel Saesneg yw'r dewis ar gyfer mis Gorffennaf. Byddwn yn cwrdd yng Nghlwb y Bont am 7.30 nos Fawrth, Gorff.16eg.

Profiad Arbennig
Mae Huw Blainey yn parhau ar daith gyda'r cynhyrchiad o Warhorse. Ar ôl perfformio yn Nulyn a Hong Kong mae e ar y ffordd am gyfnod i Seland Newydd. Fe fydd gwynebau cyfarwydd yn y gynulleidfa yno gan fod ei rieni, Gareth a Delyth a'i gariad, Josie yn treulio tair wythnos yn crwydro'r ynysoedd. Noson o atgofion i Ferched y Wawr yn yr Hydref Delyth!

Ffit Cymru

Llongyfarchiadau i Dave Roberts wrth iddo ymddangos ar raglen 'Ffit Cymru' a cholli 3 stôn dros 7 wythnos. Mae Dave yn ddirprwy bennaeth yn Ysgol Heol y Celyn, Pontypridd. Cafodd gefnogaeth ardderchog gan y teulu. Mae ei wraig Julia yn gweithio yn Ysgol Gymraeg Llwyncelyn a'r plant Aled a Ffion yn ddisgyblion y Ysgol Cwm Rhondda, Y Porth. Dal ati Dave!

Y Lolfa Goffi
Ydych chi wedi llwyddo i alw am ddisgled yn Yr Hen Lyfrgell eto?
Beth am barcio yn Barry Sidings a cherdded ar y llwybr lan i'r Porth?
Mae croeso cynnes yno a choffi da o'r Coal House, Rydaman.Cyfle i brynu cardiau cyfarch Cymraeg yn lleol gan nad oes darpariaeth ym Mhontypridd erbyn hyn.

TONTEG

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Ann Jones,Y Ridings Tonteg a'r teulu ar golli ei gwr Alun Jones yn ddiweddar wedi brwydr hir ag MS.

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Damweiniau
Mae nifer o'r pentrefwyr wedi bod yn anlwcus iawn yn ystod mis Mai yn dioddef damweiniau reit ddrwg. Fe syrthiodd Pat Edmunds, Penywaun ym Mhentre'r Eglwys gan dorri asgwrn ei thrwyn a bu ganddi ddau lygad du iawn am rai dyddiau. Brifodd Judith Thomas, Parc Nant Celyn, ei braich a'i llaw mewn codwm cas. Da deall fod y ddwy lawer yn well erbyn hyn. Cafodd Ethin Henry, Nant y Felin godwm go egr yn y tŷ gan frifo ei choes yn wael. Wrth dorri porfa'r lawnt cafodd Beryl Rowley ddamwain erchyll gyda'r peiriant gan frifo ei dwy droed yn gas. Dymunwn wellhad buan a llwyr i'r pedair.

Pen-blwydd
Fe ddathlodd Vera Gammon, Heol Iscoed, ei phen-blwydd yn 92 oed yn ystod y mis. Llongyfarchiadau calonnog i chi Vera.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Liz Rees, Dyffryn Bach Terrace, ar gwblhau Marathon Casnewydd yn ystod mis Mai. Roedd mor falch o'i champ nes iddi benderfynu rhedeg Hanner marathon Caerdydd a gwneud hynny i godi arian at Ymchwil y Galon. Os hoffech gefnogi Liz drwy ei noddi, rwy'n siŵr y bydd yn hapus iawn o glywed gennych.

Ffair Grefftau
Cynhelir Ffair Grefftau yn neuadd y Pentref ddydd Sadwrn, Mehefin 15fed am 10 o'r gloch y bore tan 2 o'r gloch y prynhawn.
Bydd elw'r ffair at ymchwil Nychdod Cyhyrol.

Y TABERNACL
Cymorth Cristnogol
Bu nifer o aelodau'r Tabernacl wrthi'n frwdfrydig iawn yn casglu arian at Gymorth Cristnogol o amgylch y pentref eleni eto. Casglwyd rhyw £1400 yn y pentref. Diolch i Judith a John Llewelyn Thomas am gydlynu a threfnu'r casgliad yma'n flynyddol.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Taid a Mam -gu, Colin a Nia Williams ar enedigaeth wyres fach newydd. Ganwyd Loti Haf i Elin a George Jones, Pentre'r Eglwys ddiwedd Ebrill. Mae ei chwaer fawr Anni Beth wrth ei bodd.

Eisteddfod yr Urdd
Llongyfarchiadau i bawb o'r capel a fu'n cystadlu a pherfformio yn Eisteddfod yr Urdd yn y Bae.

Clwb Cymric yn 50 mlwydd oed

"*Tri o'r gloch ar brynhawn braf yn Nhrelai yn nechrau Medi 1969…*" yn ôl y cofnod, y daeth Clwb Pêl-droed Cymry Caerdydd i fodolaeth.

Ychydig yn ddiweddarach, gan ei bod yn anodd os nad amhosibl ffitio'r enw ar gefn y crys, fe esblygodd yn Glwb Cymric!

Dyma'r Clwb sydd bellach wedi goroesi am 50 mlynedd, ac wedi datblygu o fod yn dîm o un-ar-ddeg i fod yn deulu o dimau pêl-droed, ar gyfer y bechgyn a'r merched, pêl-rwyd a hoci, gan gofleidio yn ogystal dimau oedran cynradd "Y Crocs".

Mae'r tîm cyntaf yn chwarae eu pêl-droed yn Adran 1 Cynghrair "Alliance" De Cymru erbyn hyn, ac ychydig sydd mwyach yn cofio'r dyddiau cychwynnol difyr rheini yng Nghyngrair 5 Caerdydd a'r Cylch.

Ond Clwb Cymraeg ei iaith a Chymraeg ei afiaith ydyw a hir y parhaed hynny hyd at y cant a thu hwnt. Bu dathlu, yn eironig, mewn stadiwm rygbi, a bu i'r 185 oedd yn bresennol yn Lolfa Llywydd Undeb Rygbi Cymru ar yr 11eg o fai 2019 fwynhau gwledd o fwyd, ond yn bwysicach na hynny, gwledd o hel atgofion ac ail-adrodd y troeon trwstan rheini a ddaeth i ran rhai o'r chwaraewyr tra'n cynrychioli'r Clwb.

Roedd chwech o'r tim cyntaf gwreiddiol o 1969 yn bresennol, un, Wil, y capten cyntaf, yn ymwelydd cyson a'i deulu yn y Creigiau (gyda Kaye ei wraig), John Roberts (o Fôn), brawd Selwyn, eto sy'n byw yn y Creigiau, a golgeidwad cyntaf y Clwb oedd neb llai na Wynford Ellis Owen, Cynghorydd Cymuned Creigiau ar Gyngor Cymuned Pentyrch. 'Roedd un, Tudor "Tiwds" Davies, yn wreiddiol o Ynys Môn, wedi teithio yr holl ffordd o Ganada ar gyfer y dathlu.

Tri o Bentyrch, un o Radur, a phawb ond dau o'r gweddill yn byw yng Nghaerdydd a'r Fro, a welir yn y lluniau uchod a rhyfeddod y rhyfeddodau bod pawb ond un ohonynt oedd yn y llun gwreiddiol o'r 80au yn bresennol ar y noson (pawb ond brawd y Golygydd!).

Pwy ydynt tybed? Pryd o fwyd bob nos Wener, am oes, yn y Mochyn Du, os y dyfalwch yn gywir!

Cymerwch gip ar wefan y Clwb www.clwbcymric.cymru am fwy o wybodaeth a dwi'n gwybod bod bob amser gyfle i ymuno a'r tîm(oedd) os oes diddordeb gennych.

Merched y Tabernacl
Ar gyfer ein cyfarfod mis Mai fe ymunodd aelodau'r grŵp merched gydag aelodau Merched y Wawr, Cangen Tonysguboriau i glywed am brofiadau Gwenno Rees tra roedd yn Swyddog Datblygu'r Gymraeg ym Mhatagonia. Adroddodd Gwenno am ei blwyddyn yn Y Wladfa gydag afiaith a brwdfrydedd. Cafodd flwyddyn garlamus o brysur yn dysgu ystod eang o oedrannau o'r ifanc iawn i oedolion. Diolch Gwenno am noson hwylus iawn.

Ein cyfarfod nesaf fydd ymweliad â Sain Ffagan ddydd Gwener, Mehefin 7fed.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer Mis Mehefin
Mehefin 2il Oedfa Gymun o dan ofal aelodau Llantrisant, Llanharan a Meisgyn.
Mehefin 9fed Y Parchedig Aled Edwards
Mehefin 16eg Sul teuluol gyda Gareth a Rhiannon Humphreys
Mehefin 23ain Mr Emlyn Davies
Mehefin 30ain Mr Allan James

Taith Gwlad Belg Ysgol Gyfun Garth Olwg

Roedd trip Gwlad Belg yn brofiad rhagorol na fyddaf byth yn ei anghofio. Dysgais lawer o bethau am hanes y Rhyfel Byd Cyntaf. Dysgais sut cyfrannodd Cymru i'r rhyfel a beth sydd wedi cael ei greu i gofio'r milwyr fu farw yn diogelu dyfodol y wlad. Cyn y daith nid oeddwn yn ymwybodol o'r rôl allweddol oedd gan Gymru yn y rhyfel. Yn ffodus i ni, roedd gennym ni tywysydd o'r cwmni teithio yn ein dysgu ni am y llefydd hanesyddol.

Gwelom ni gerflun anhygoel o'r ddraig goch yng Nghoedwig Mametz. Mwynheais ddysgu am hanes y cerflun a dysgu pam cafodd ei greu. Roedd mynd i weld y mynwentydd yn brofiad trist ond yn brofiad pwerus a fydd yn aros yn y cof am weddill fy mywyd a gwelon ni hefyd fedd y bardd enwog, Hedd Wyn.

Roedd mynd i weld y Somme hefyd yn brofiad bythgofiadwy. Roedd hi'n ddiddorol gweld lle mor bwysig yn agos. Gwelom ni gerflun enfawr ym Mharc Cofio Canada a chawsom ni'r cyfle i fynd i ffosydd go iawn. Dydw i ddim yn gwybod sut oedd milwyr yn medru byw yn y ffosydd ac roedd rhai yn gorfod byw ynddynt am flynyddoedd!

Ar y trydydd diwrnod aethom ni i'r parc thema lle mwynheais lawer a chefais y cyfle i ymarfer siarad Ffrangeg. Roedd y reidiau yn ofnus ond hefyd yn hwyl. Doedd y ciwiau ddim yn rhy wael felly aethom ni ar dipyn o reidiau. Aethom ni ar y reid dŵr amser cinio oedd yn gamgymeriad oherwydd roeddwn i'n sopen am y prynhawn ond ni wnaeth hyn ddifetha'r hwyl! Roedd y bwyd yn y bwyty yn flasus iawn, ac ar ôl dod adref o'r parc thema, aethom ni i siop siocled a llwyddais i brynu holl anrhegion y teulu yn y fan hon.

Roedd y daith yno ac yn ôl yn daith llawn hwyl lle darllenais ddau lyfr a chysgu ar y bws yn ogystal â siopa a bwyta ar y cwch. Roedd y daith i Wlad Belg yn rhagorol lle ddysgais lawer ond hefyd cefais y cyfle i gael hwyl a threulio amser gyda fy ffrindiau. Dydw i'n methu aros am y daith nesaf gyda'r ysgol! Gan Jessica Viner, Blwyddyn 9.

Ysgol Tonyrefail

Ffarwelio
Roedd yr holl ysgol yn drist wrth ffarwelio a Mr Holland sydd wedi bod yn ofalwr yn yr ysgol ers 7 mlynedd. Pob amser yn barod ei gymwynas fe fydd y plant yn gweld ei eisiau yn fawr. Dymunodd pawb pob hwyl iddo wrth iddo ail afael yn ei yrfa fel adeiladwr. Diolch i blant blwyddyn 1 a 2 am ganu yn y gwasanaeth ffarwelio.

Felindre
Buodd y Cyngor Ysgol unwaith eto yn brysur yn codi arian ar gyfer elusen Felindre. Eleni penderfynwyd codi arian drwy wisgo pyjamas i'r ysgol a chael prynhawn o weithgareddau amrywiol. Casglwyd £190 i'r elusen arbennig hon.

Cyngor Eco
Diolch i'r Cyngor Ysgol am helpu i gasglu ac ailgylchu 25.6kg o wastraff pecynnau wyau Pasg. Da iawn bawb am ailgylchu! Mae disgyblion yr ysgol wedi dewis 'Y Blaned Werdd' fel rhan o'u gwaith thematig y tymor hwn.

Pererindod
Daeth Ficer Ruth i siarad â disgyblion yr ysgol am ei phererindod ddiweddar i Santiago de Compostela a'r llwybr sydd ynghlwm â Phererindod o Eglwys Gadeiriol Llandaf i'r cysegr ym Mhenrhys. Mae'r ysgol yn edrych 'mlaen i fod yn rhan o'r prosiect i hyrwyddo'r bererindod.

Gwisgo Helmedau
Cafodd plant blynyddoedd 5 a 6 gyfle i gymeryd rhan mewn arolwg ar wisgo helmedau wrth reidio beic. Yn ogystal cynhaliwyd gweithdai gan Fwrdd Iechyd Prifysgol CwmTaf i drafod pwysigrwydd gwisgo helmedau.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol) **:**

Mis Mehefin 2019:
2 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Siôn
9 – Oedfa'r Sulgwyn dan ofal y gwragedd
16 – Oedfa dan ofal y Parchedig Ken Williams
23 - Oedfa dan ofal y Parchedig Dewi Myrddin Hughes
30 – Oedfa dan ofal June a Huw Lloyd

Mis Gorffennaf 2019:
7 – Oedfa dan ofal y Parchedig Elfed ap Nefydd Roberts
14 – Sul y Cyfundeb
21 – Oedfa dan ofal Delwyn Siôn
28 – Oedfa dan ofal Arwel Ellis Owen (ar y cyd ag Efail Isaf)

ooooOOOOoooo

'Roeddwn yn ffodus ryfeddol, am sawl rheswm, i gael fy ngeni a'm magu yn Nyffryn Nantlle.

Mi fyddai'r rheini ohonoch sy'n fy 'nabod yn disgwyl i mi ddeud hynny siwr o fod!

Ardal y chwareli llechi, ardal y mynydd a'r môr, ardal Gymraeg ei hiaith a'i diwylliant, ardal y beirdd, y llenorion a'r cantorion, ardal y band a'r Mabinogi.

Ardal pêl-droed, a oedd, yn ol Idris Reynolds yn ei gyfrol ddiweddar "*Ar Ben y Lôn*" , yn cael ei ymgorffori ym mherson y diweddar Orig Williams a'i gyfaill Idris Evans:-

"Yn hyd a lled pob chwedel
Ef ei hun oedd Nantlle Vale,
Wel, ef a Tharw Nefyn;"

Ardal hanesyddol, ardal wleidyddol ac ardal grefyddol, ac R Williams Parry, yn ei soned i'r "Llwynog" yn dyst o hynny wrth glywed "*clych eglwysi'r llethrau yn gwahodd tua'r llan*" ar y pnawn Sul hwnnw ym mis Gorffennaf pan oedd "*ganllath o gopa'r mynydd*".

A mynd fyddai rhaid i ninnau blant Pengroes, fel ein rhieni o'n blaenau, a'u rhieni a'u cyn-dadau hwythau ddegawdau yng nghynt, i'r oedfaon a'r Ysgol Sul ar ddydd gorffwys.

Bryd hynny, 'roedd y siopau i gyd ar gau, a'r tafarnau yn sych, a bywyd yn ymddangosiadol lawer mwy hamddenol na'r hyn ydyw heddiw.

Oedfa am 10 o'r gloch y bore, Ysgol Sul am 2 y prynhawn, ac oedfa arall am 6 yr hwyr fyddai'r drefn, a byddai disgwyl i ni fynychu o leiaf ddau o'r tri gwasanaeth yn wythnosol.

I blentyn ifanc, yng nghwmni ei chwiorydd, byddai eistedd yn dawel trwy oedfa bregethu yn y bore yn gallu bod yn eitha her – yn enwedig wedi ei dad gael ei wahodd i eistedd yn y Set Fawr. Gyda'r nos yn ddiffael y byddai mam yn mynychu'r oedfa.

Byddai'n weddol hyd at y weddi, er byddai cilwg ar gloc y capel, oedd ar y mur ar ochr chwith y pwlpud, yn aml yn awgrymu bod y rhan arbennig honno yn gallu bod yn hynod o faith.

Ambell dro cofiem y byddai un neu ddau ymwelydd gwadd â'r pwlpud yn siwr o gofio am y teulu brenhinol yn eu gweddiau, yn enwedig am y Dywysoges Margaret, gyda'i chyswllt amlwg ac aer Plas Dinas (a Chwnstabl Castell Caernarfon), a mawr fyddai'r disgwyl am y foment honno, gan roi rhyw fymryn o wên ar ein gilydd wedi'r ymbil.

Wedi dweud adnod a chael stori, gwyddom pe bai'r bregeth ei hun yn dechrau am hanner awr wedi deg, yna 'roedd 'na sesiwn faith o'n blaenau hyd nes y cyrrhaeddai'r cloc ei un-ar-ddeg.

Sawl gwaith y bu i mi ddarllen yr enwau ar gofeb y rhyfel byd cyntaf oedd i'r dde o'r pwlpud i basio'r amser, heb lawn sylweddoli mai unigolion oedd yn arfer eistedd ar yr union seddau yr eisteddwn ni arnynt oedd y colledion.

Ac os oedd Beibl wrth law yn y sedd, yna byddem yn edrych ar y mapiau sydd ynddo, gan sylwi dro ar ôl tro ar y nifer o enwau cyfarwydd a ymddangosai ar y tudalennau.

Onid oedd Nebo, Nasareth, Cesarea, yn bentrefi y gallem eu gweld bron o ddrws y capel wrth adael, a thaith ychydig ymhellach oedd i Fethel. Heb son an enwau'r capeli eu hunain wrth gwrs gan ddechrau hefo' Saron ni.

Hyd yn oed os nad oeddem yn wrandawyr da ar bregeth, 'roedd gwerth o fath arall yn ystod cyfnod traddodi'r bregeth, oherwydd o fewn ein byd bach ni bryd hynny dychmygem mai yma, o'n cwmpas, ar ein stepen drws ein hunain, y bu llwythau Israel yn crwydro ac y bu i Iesu Grist dreulio peth o'i fywyd a rhannu ei weinidogaeth.

'Roedd modd daearu'r cyfan - yr union fan y bu Moses farw oedd y pentref lle cafodd fy mam a nhad eu geni; 'roedd crefftwyr chwarel yn y teulu yn byw yn Nasareth, jest fel Joseff.

Er fy mod bellach yn dipyn mwy cyfarwydd a mapiau o wlad Israel, yr helyntion parhaus rhwng y wladwriaeth honno a'r Paelstiniaid sy'n rhannu'r diriogaeth sy'n diffinio'n dealltwriaeth ni heddiw o'r lle.

Er o ddifrif ydi hi mor anodd a hynny gwahaniaethu rhwng yr heddiw cythryblus a'r ddoe cythryblus a groniclir yn y Beibl?

Feddyliais i ddim yn fy ieuenctid, a minnau, fel llawer un o'm cyfoedion, heb orfodaeth, yn gyndyn o fynd i'r capel, y byddwn bellach yn *dymuno* mynd ar daith i wlad y Beibl oherwydd fy mod am weld yr union fannau rheini sydd wedi dylanwadu a rhoi ystyr i'n byw a'n bod ni byth ers hynny.

Cael fy siomi, cael fy argyhoeddi, yntau cael fy ysbrydoli a gaf tybed?

Diolch i Gapel Saron, Peygroes (Capel y Groes sydd bellach wedi ei adeiladu o'r newydd ar ei safle) ac i Gapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, fy mod yn dal i gredu!

ooooOOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem www.bethlehem.cymru

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter) @gwebethlehem.

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Nos Lun 20fed o Fai 2019 cawsom ni sgwrs ddiddorol iawn gan Derith Rhisiart. Y testun oedd 'Gwirionedd', ond roedd cynnwys yr anerchiad ar seicoleg iechyd. Mae Derith wedi troi yn seicolegydd wedi gweithio am nifer o flynyddoedd yn y byd teledu. Ar hyn o bryd mae hi'n gwneud doethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar nifer o destunau gan gynnwys cyfweld ysgogol (motivational intervewing) yn Gymraeg. Techneg yw hon lle mae'r holwr yn ceisio dylanwadu ar ymddygiad y claf trwy roi cymorth ac anogaeth iddynt wneud dewisiadau adeiladol. Pwysleisiodd Derith ei fod yn bwysig bod y seiciatrydd yn gwrando yn astud ar y claf, a dangos parch cyn gwneud unrhyw awgrymiadau. Mae Derith yn ceisio profi bod cyfweld ysgogol yn gweithio yn well yn y famiaith.

Mae hi hefyd yn ystyried a yw siaradwyr dwyieithog yn cynhyrchu mwy o emosiwn wrth drafod materion yn eu mamiaith? Mae gan yr ymchwil yma ddefnyddiau tu hwnt i Gymru gan ystyried ieithoedd lleiafrifol eraill fel iaith y Maori, yr Aborigini ac Indiaid brodorol America. Soniodd Derith hefyd am y fframwaith 'Mwy na Geiriau' gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Cynllun sydd yn annog darparwyr gofal i gynnig gwasanaethau i'r un safon yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Nod y gwaith yma yw creu dull safonol o siarad gyda chleifion.

Yna trafododd Derith y diffyg anogaeth ar siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle ac am y syniad y dylid trafod materion proffesiynol yn Saesneg. Mae rhai yn honni mai diffyg geirfa yw y rheswm am hyn, ond yn aml mae y termau technegol ddim yn eiriau Saesneg er enghraifft yn y maes iechyd. Yn wir mae tystiolaeth bod trafod materion iechyd yn eich mamiaith yn adeiladu perthynas therapiwtig gwell. Cawsom ni i gyd ein ysbrydoli i ofyn am y llinell Gymraeg mewn pob ymholiad o hyn ymlaen!

Rhys Morris

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Gorffennaf
i gyrraedd erbyn
28 Mehefin 2019

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
Copyprint Wales
www.copyprintwales.co.uk

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

CLWB Y DWRLYN

Taith i Went gyda Frank Olding

Dydd Sadwrn, 6 Gorffennaf

Manylion: 02920890040

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

Michael Churchill-Jones yn 'Olrhain Achau'
8yh Nos Fercher, 12 Mehefin
Y Ganolfan, Efail Isaf

MERCHED Y WAWR
Tonysguboriau

Mehefin 19eg

'Byw gyda Dementia'
gyda Beti George

Rhagor o fanylion:
01443 223828

Taith Gerdded Macmillan Llantrisant Gorffennaf 7ed

Gwnewch nodyn yn eich dyddiaduron i gael eich 'sgidiau cerdded yn barod ar gyfer y daith gerdded flynyddol hon ar Orffennaf 7fed.

Mae'n daith ar gyfer y teulu i gyd a gallwch gerdded 4 neu 8 milltir (o'r ganolfan hamdden i Efail Isaf ac yn ôl). Cofrestru yng Nghanolfan Hamdden Llantrisant am 11.00 os am gerdded 8 milltir ac am 11.30 ar gyfer 4 milltir. Am fwy o fanylion gallwch fynd i dudalen Gweplyfr Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r Cylch neu defnyddio tudalen 'Justgiving".

Ffordd Bererindod Pen-rhys



Byddwch yn un o bererinion cyntaf, yn yr oes bresennol, i gerdded y ffordd o Gadeirlan Llandaf i'r ffynnon gysegredig ym Mhen-rhys. Y mae Project Pererindod Pen-rhys yn ail greu ac yn arwyddo'r ffordd. Mae'n bosib cerdded o Landaf i Ben-rhys mewn dau ddiwrnod, cyflwyniad hawdd i'r syniad o bererindod. Os ydych chi'n meddwl am fynd ar bererindod neu eisiau crwydro rhai o gymoedd harddaf de Cymru, dyma'r ffordd i chi.

Ym mis Mawrth 2020 bydd Ffordd y Bererindod i Ben-rhys yn cael ei hagor yn swyddogol gyda dathliad yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Yn y canol oesoedd roedd y ffordd i Ben-rhys yn un o'r ffyrdd pererindod pwysicaf yng Nghymru. Mae'r ffordd sydd wedi ei hail greu yn dilyn ffyrdd cyhoeddus ar hyd y daith. Mae modd ail gysylltu â'n cyn-deidiau o'r canol oesoedd.

Mae'n daith o 21 milltir trwy ddarnau o wlad harddaf de Cymru, o Landaf i fannau cysegredig Pen-rhys. Mae ym Mhen-rhys gerflun (modern) o'r Forwyn Fair, a'r ffynnon wellhad o'r canol oesoedd.

Mae'n daith o ddau ddiwrnod, gan dorri'ch taith yn nhref hanesyddol, Llantrisant. Neu beth am grwydro'r ffordd am ryw awr neu ddwy? Mae'r holl Ffordd i gyd yn dilyn ffyrdd cyhoeddus.

Yn ystod 2019 mi fydd y Ffordd yn cael eu harwyddo gan symbolau amlwg ac yn cael ei chyflwyno i drefydd a phentrefi ar hyd y daith. Mae nifer o daflenni yn cael eu paratoi, yn dangos y Ffordd yn fanwl, gyda mapiau, ag ychydig o hanes pob ardal. Bydd y wefan yn cael ei ddatblygu i roi rhagor o wybodaeth, gan gynnwys llefydd i aros dros nos a llefydd i ymweld â nhw, yn ogystal â gwybodaeth ar gyfer disgyblion ar wahanol agweddau o'r ffordd. Cadwch i edrych ar y wefan am fwy o fanylion....
www.taithpererindodpenrhys.cymru

Ysgol Gynradd Garth Olwg

Dr Al-Hasan
Diolch i Dr Al-Hasan a ddaeth i siarad gyda'r disgyblion heddiw am ŵyl Ramadan fel rhan o'n hwythnos 'Dinasyddion Egwyddorol'. Diolch hefyd i Mr Coleman am wasanaeth cyfeillgarwch.

Pwyllgor Eco
Diolch am waith caled plant a rhieni Garth Olwg a'r Pwyllgor Eco i gasglu sbwriel wyau Pasg.

Park run ym Mhontypridd
Llongyfarchiadau i bawb a fu'n rhedeg fore Sadwrn a diolch i bawb a wnaeth noddi a chefnogi. Rydyn wedi codi £240 hyd yn hyn. Diolch hefyd i Mrs. Howard am drefnu.

Rygbi
Am ddiwedd tymor llwyddiannus i Ioan Leyshon a Harrison Thomas. Penwythnos diwethaf enillodd Ioan a'i dîm rygbi Ysgolion Pontypridd cwpan saith pob ochr Undeb Rygbi Ysgolion Cymru yn Nyfnant. Neithiwr enillodd Harrison a'i dîm rygbi Ysgolion Pontypridd cwpan Les Spence ar Barc yr Arfau yn erbyn tîm Ysgolion Caerdydd.

Pêl-droed
Llongyfarchiadau i Jaxon Humphreys enillodd tlws 'Super 6' i dîm Dan 12, Academi Cambrian.

Gymnasteg
Bydd Mali-Fflur Lane yn cystadlu ym mhencampwriaethau gymnasteg Prydain yn Lerpwl ym mis Gorffennaf ac mae'n un o ddwy ferch yn ei grŵp oedran o Gymru. Mae hi hefyd wedi cael ei dewis i fynd i Rwsia ym mis Awst ar gyfer gwersyll hyfforddi gyda thîm Prydain.

Eisteddfod yr Urdd
Pob hwyl i bawb sy'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerdydd yn ystod yr hanner tymor.

Ysgol Pont-Sion-Norton

Pontypridd
Cafodd y Cyfnod Sylfaen ddiwrnod gwych yn yr haul wrth gerdded i Bontypridd i ymweld â'r Hen Bont a'r parc a chyfuno Rhifedd, Llythrennedd a Dyniaethau gyda hwyl!

#Siarter Iaith
Bu plant yr ysgol yn brysur yn addurno cerrig gyda geiriau a dywediadau Cymraeg i'w rhoi o amgylch y gymuned fel rhan o'r ymgyrch Siarter Iaith. Rydym yn gobeithio y bydd pawb sy'n eu darganfod yn eu Trydar @clwstwrGO #Psn.

Rygbi
Llongyfarchiadau i'r tîm rygbi am gynrychioli'r Ysgol yng nghystadleuaeth 7 bob ochr yn Aberystwyth ym mis Mai.

Water Aid
Diolch i ddosbarth y Comin am drefnu diwrnod arbennig i godi arian ar gyfer Water Aid- bore coffi, peintio wynebau, cadw'n heini a llawer o hwyl!

Ysgol Castellau

Comin Tynant
Mae thema'r Adran Iau wedi ymwneud ag Ardal Comin Tynant, lle rydym wedi bod yn treulio llawer o amser yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr ardal naturiol, helpu i lanhau ac i godi sbwriel ac i astudio'r bywyd gwyllt sydd yno. Mae'r plant wedi treulio llawer o amser yn dysgu yn yr awyr agored. Daeth rhaglen 'Heno' i'n ffilmio i ddangos ein gwaith yn ystod y prosiect hefyd. Diolch i Julie Barton a Carys Romney am eu cymorth wrth ddangos yr ardal i'r plant.

Ffrâm Ddringo
Newyddion cyffrous wrth i'n ffrâm ddringo newydd gael ei adeiladu ar ein cae. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am godi arian ar ei gyfer.

Clodfori'r Fisged

Pan gafodd Eluned Davies-Scott ei gwahodd i siarad am 'Ddiwrnod y Fisged' ar Fore Cothi roedd rhaid mynd ati i wneud ychydig o ymchwil.

Mae'r ddefod o 'dyncio' bisged mewn i de poeth yn llawenydd perffaith ac yn obsesiwn perffaith unigryw i Brydain meddai Nigel Slater. Ond roedd rhaid cael cyngor beth yw'r Gymraeg am 'dunking"? Doedd dim ond un person i fynd ati am gyngor, sef Helen Prosser, ac fe ddaeth y ddwy ohonynt i gasgliad mae 'dycio' yw'r gair gore. Beth fyddech chi'n ei ddefnyddio? Cafodd Shân a'r tîm gyfle i flasu rhai o ffefrynnau Eluned hefyd - y fisged Anzac, y biscotti, fisged sinsir a Florentines.

Gweithdy a Disgo Ynni Da
Diolch i gwmni Ynni Da am ddod i'r ysgol i redeg gweithdy cerddoriaeth Gymreig. Cawsom lawer o hwyl yn y prynhawn gyda disgo ar ein iard – gyda'r egni ar gyfer y trydan wedi ei gynhyrchu gan y plant yn seiclo!

Beicio
Cynhaliwyd taith feicio noddedig un bore Sadwrn ar ffordd osgoi Pentre'r Eglwys. Diolch i bawb ddaeth ac i bawb a gyfrannodd – defnyddion ni'r arian er mwyn prynu beiciau newydd i'r plant ieuengaf i ddefnyddio yn ystod eu gwersi Addysg Gorfforol.

Dathlu 70 mlynedd o Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd

70 mlynedd yn ôl, gwireddwyd breuddwyd cylch bychan o ymgyrchwyr dan arweiniad Gwyn Daniel wrth i Gyngor Caerdydd agor Ysgol Gymraeg Caerdydd, mewn tair ystafell yn Ysgol y Bechgyn, Parc Ninian. 18 o blant a ddaeth yno at Miss Enid Jones a Miss Edwina Davies y bore cyntaf, Medi 5, 1949. Buan y tyfodd yr ysgol, a'i sefydlu yn Ysgol Bryntaf, ddiwedd tymor yr haf 1952. Dathlwyd cyrraedd y 100 disgybl ar Dachwedd 2, 1954.

Bellach, ymfalchïwn fod y cyw ysgol hwnnw wedi tyfu, ac esgor ar 17 o ysgolion cynradd Cymraeg a 3 ysgol uwchradd o fewn ffiniau'r ddinas. Mae Glantaf bellach wedi dathlu'r 40, a Phlasmawr 20 mlynedd o lwyddiant. Felly gwahoddwn chi i gyd-ddathlu'r pen-blwydd 70 mlynedd o Addysg Gymraeg yng Nghaerdydd gyda ni ar Fehefin 22, 2019.

Bydd yr Orymdaith Ddathlu yn ymgynnull ar Rodfa Edward VII, wrth ochr Neuadd y Ddinas, rhwng 9.00 a 10.00 y bore. Am 10.00, byddwn yn ymdeithio drwy strydoedd di-draffig Caerdydd i gyrraedd porth cefn y Castell ym Mharc Biwt am 11.00, er mwyn mynd i mewn i fwynhau Tafwyl. Gwahoddwyd pob ysgol Gymraeg yng Nghaerdydd, y Mudiad Ysgolion Meithrin a Rhieni dros Addysg Gymraeg, ac maent oll wedi cytuno i'n cefnogi.

Ond, er mwyn i'r digwyddiad fod yn llwyddiant, mae angen eich cefnogaeth chi; nid yn unig y disgyblion ac athrawon presennol, ond hefyd rhieni'r presennol a'r gorffennol, a'r miloedd o gyn-ddisgyblion a gafodd eu haddysgu yn ein Ysgolion Cymraeg dros y 70 mlynedd, sydd bellach yn rieni eu hunain, a nifer yn famgu a thadcu neu nain a thaid. Dowch i ddangos i bobl Caerdydd cymaint yw llwyddiant Addysg Gymraeg yn ein prifddinas! Bydd hon yn ffenest siop ardderchog i werthu'r syniad y gall pob teulu yn y ddinas fanteisio ar addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant.

Acapela

Bydd Elinor Bennett yn cynnal ei chyngerdd haf yn Acapela am 8yh, 14eg o Orffennaf. Tocynnau - acapela.co.uk

Ysgol Creigiau

Swyddogion Diogelwch y Ffordd
Cafodd ein chwe Swyddog Diogelwch Iau syrpreis pan ddaeth Aled Forster (Swyddog Cymorth Diogelwch ar y Ffyrdd o Gyngor Caerdydd) i weithio gyda nhw. Roedd wedi trefnu i Gerbyd Goruchwylio Traffig ddod i'r ysgol. Roedd Isobel, Chloe, Roan, Elin, Math a Caitlin wedi mwynhau edrych o gwmpas y car a chawsant gyfle i argraffu tocynnau parcio. Roeddent hyd yn oed wedi rhoi tocyn parcio i un o'r athrawon am beidio â pharcio o fewn y llinellau yn ein maes parcio!

Enillwyr Celf a Chrefft yr Urdd
Mae wyth darn o waith celf a grëwyd gan ein disgyblion wedi ennill gwobrau yn Eisteddfod Sirol Celf a Chrefft yr Urdd. Da iawn ti Heti, Isla, Ela Wyn, Theo, Mari, Gruffydd, Owen ac Emrys.

Cawsom fwy o newyddion da pan glywsom bod gwaith Theo (Dosbarth 1) wedi ennill y wobr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Fro. Bydd ei waith yn cael ei arddangos yn y Senedd yn ystod wythnos yr Eisteddfod.

Tenis
Yn ddiweddar cystadlodd nifer o ddisgyblion yr ysgol mewn gwahanol gystadlaethau Tenis a drefnwyd gan Gemau Caerdydd, Aeth disgyblion Blwyddyn 6 i Ganolfan Tenis David Lloyd ac aeth disgyblion Blwyddyn 3 a 4 i House of Sport. Roeddent i gyd wedi mwynhau'r profiad yn fawr. Llawer o ddiolch i Mr Snell am fynd gyda'r disgyblion.

Eisteddfod yr Urdd Caerdydd a'r Fro
Bydd llawer o'n disgyblion yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd yn ystod hanner tymor. Yn ogystal â hyn mae 19 o ddisgyblion Dosbarth 4, 5 a 6 yn rhan o sioe Cynradd yr Urdd 'Troi Heddiw yn Ddoe'. Maent wedi bod yn brysur yn ymarfer ers wythnosau. Byddant yn perfformio ar lwyfan Canolfan y Mileniwm Nos Fawrth yn ystod wythnos yr Eisteddfod. Dymunwn pob lwc i bawb.

Rydym hefyd wedi bod yn brysur yn addurno ein hysgol yn lliwiau'r Urdd i groesawu Eisteddfod Caerdydd a'r Fro i'r ardal. Daeth beirniaid i ymweld â'r ysgol ddydd Gwener cyn hanner tymor a bydd yr Ysgolion buddugol yn cael ei gwobrwyo yn ystod wythnos yr Eisteddfod.Mae'n werth i chi ddod am daith gerdded neu yn y car heibio'r ysgol i weld gwaith creadigol y disgyblion a'r staff!

Casia William
Daeth Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru, i'r ysgol i gynnal gweithdy llythrennedd gyda Disgyblion Dosbarth 4. Fe wnaethant fwynhau'r sesiwn yn fawr iawn.

Gweithdy Drama
Daeth Anwen o gwmni 'Mewn Cymeriad' i'r ysgol i gynnal gweithdy a chyflwyniad drama gyda disgyblion Blwyddyn 5. Roedd y disgyblion i gyd wrth eu boddau yn dysgu am brofiadau a digwyddiadau'r 2il Ryfel Byd drwy ddrama. Diolch Anwen!

Merched y Wawr Cangen Tonysguboriau

Ym mis Mehefin cawsom 'ddau am bris un' wrth groesawi Catrin Stevens atom i'r Pafiliwn ar Fai 15fed i siarad am Leisiau o Lawr y Ffatri a chael cyfarfod ar y cyd gyda Merched Capel y Tabernacl yr wythnos olynol gyda Gwenno Rees yn ein difyrru gyda hanesion ei blwyddyn ym Mhatagonia.

Heblaw am wylied 'Made in Dagenham' a 'Back in time for the factory' ychydig oedd nifer ohonom yn gwybod am gyfraniad pwysig menywod i economi Cymru ar ôl yr ail ryfel byd. Doedd dim cofnod o hyn ar gael hyd nes i Catrin Stevens fynd ati i newid pethau a chasglu gwybodaeth a hanesion y menywod hyn. Roedd ffatrïoedd led led Cymru yn cyflogi menywod i wneud ystod eang o waith. Roedd storiâu difyr iawn am rai o'r menywod 'ffeisty' oedd wedi mentro i fyd diwydiant a chawsom glywed recordiadau o brofiadau nifer o gyn-weithwyr yn nhafodiaethau'r ardaloedd lle roeddynt yn byw. Prin yw'r dystiolaeth o bwysigrwydd menywod yn ein hanes ac mae rhaid diolch i Catrin am fynd ati i newid hyn. Mae'n werth darllen ei llyfr ac edrychwn ymlaen at ffrwyth ei phrosiect diweddaraf fydd yn cofnodi cyfraniad menywod i'r 20fed mlynedd gyntaf Llywodraeth Cymru. Rhannodd sawl un o'n haelodau eu profiadau o weithio mewn ffatri gyda ni dros 'baned ar ddiwedd y noson.

Merch gyda llawer o ynni yw Gwenno Rees ac fe ddaeth hyn drosodd yn ei chyflwyniad am ei phrofiadau yn y Wladfa. Yn sicr roedd bod yn ifanc ac yn allblyg yn rhinweddau pwysig iawn i gwrdd â'r heriau a wynebodd hi wrth ddysgu Cymraeg i bob oedran draw ym Mhatagonia. Roedd y teithio, oriau hir, y tywydd a'r pryfed cop! efallai yn annisgwyl ond roedd y caredigrwydd, y croeso a'r brwdfrydedd dros yr iaith (a'r niferoedd o de prynhawn) wedi ei chynnal trwy'r flwyddyn.

Mae'n siŵr na fydd Cymry Patagonia yn anghofio cyfraniad Gwenno yn fuan at hybu'r iaith yno. Diolch i bawb ddaeth i wrando ar Gwenno ac am y cyfraniadau hael fydd yn mynd i gefnogi'r ysgolion yn Nhrelew.

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Noson Wobrwyo
Nos Iau'r 11eg o Ebrill cynhaliwyd Seremoni i ddathlu llwyddiant disgyblion Ysgol Gyfun Garth Olwg a'u cyrhaeddiad a'u hymdrechion yn ystod

2017-18. Braf oedd gweld y theatr yn llawn ar gyfer y digwyddiad arbennig hwn pan cawsom ymfalchïo fel staff, rhieni a llywodraethwyr yn llwyddiannau ein disgyblion. Cafwyd cwmni gwestai arbennig ar y noson sef Mr Gareth Rhys Owen (un o Brif Newyddiadurwyr Chwaraeon Cymru) a bu iddo ysbrydoli'r gynulleidfa gyda'i anerchiad. Cafwyd adloniant ar y delyn gan Elen Griffiths o Flwyddyn 9 a braf oedd gwrando ar ei pherfformiad swynol.

Y disgyblion canlynol oedd yn fuddugol yn y gwobrau unigol eleni:

Gwobrau Cyfnod Allweddol
CA3
Annwylun Pike, Ellie-Mae Gough, Jenna Hill, Mali Thacker Elliot, Seren Collier, Bethan Lloyd, Olivia Holmes
CA4
Stephanie Gable, Chloe Stacey, Rhian Lewis, Isaac Hayes
CA5
Dafydd Lloyd, Nyasha Thomas, Lucas Watts, Joe Thomas
Gwobrau eraill
Gwobr Mr Dafydd Jones – Lauren Hughes

Gwobr y Delyn – Morgan Evans
Gwobr Lily Richards – Osian Gruffydd
Gwobr yr Adran Ddrama – Shauna Langford-Hopkins a Lauren Hughes
Gwobr yr Adran Chwaraeon – Georgia Jenkins
Gwobr Daniel Farr – Gethin Collier
Gwobr yr Athrawon – Ethan Williams
Gwobr Gwenan Brooks – Dafydd Lloyd
Gwobr yr Adran Fathemateg - Daniel Townley-Keogh
Gwobr yr Adran Ddylunio a Thechnoleg – Megan Jenkins ac Erin Hughes
Gwobr yr Adran TGCh – Morgan James
Ymroddiad arbennig yr Adran Gelf – Lowri Griffiths
Hybu Iaith a Chymreictod – Ethan Williams

Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonynt!

Taith Celfyddydau'r Garth
Ar Fai 16eg aeth disgyblion Blwyddyn 7 ar daith Celfyddydau'r Garth i Fae Caerdydd. Yn ystod y bore cafodd y



disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn gweithgaredd ffotograffiaeth ac arlunio lle'r oedd yn rhaid tynnu 30 llun a oedd yn adlewyrchu bywyd y bae a braslunio golygfa banoramig o'u dewis. Yn y prynhawn cafodd y disgyblion gyfle i weld sioe 'Joseph and the amazing technicolor dreamcoat' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Roedd y set yn anhygoel ac roedd y canu a'r actio'n wych. Daeth y sioe yn fyw i ni ac roedd yn brofiad gwych i gael gweld perfformiad byw o sioe gerdd. Diwrnod i'w gofio!

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau gwresog i griw o ddisgyblion Blwyddyn 8 a lwyddodd i ennill cystadleuaeth gwaith cartref yr adran Wyddoniaeth yn yr Eisteddfod ar draws Cymru ac i Sam Davies, Blwyddyn 10 ar ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth sgriptio.

Efan yn cyfweld Carwyn Jones
Yr wythnos diwethaf, cefais i'r cyfle fel aelod o Senedd Ieuenctid Cymru i gyfweld â chyn Brif Weinidog Cymru, Carwyn Jones. Roedd yr Aelod Seneddol yn Brif Weindog am 9 mlynedd, sef rhan fwyaf o fy mywyd i! Gofynnais i gwestiynau am ei amser fel Prif Weinidog Cymru, materion sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc, a mwy. Yna, fe wnaeth Mr Jones ofyn i fi am fy rôl i fel aelod o'r Senedd Ieuenctid a beth oedd fy marn i ar rai materion. Gwnes i fwynhau'r sgwrs a derbynais lawer o gyngor ynglŷn a fy rôl. Mae'n bosib gwylio fy nghyfweliad ar YouTube Senedd Ieuenctid Cymru.
Gan Efan Fairclough, Blwyddyn 11.

Llwyddiannau Chwaraeon
Garth Olwg yn ennill gêm derfynol Ysgolion RhCT

Mae tîm pêl-droed merched Blwyddyn 7 ac 8 Garth Olwg wedi cael ei goroni fel enillwyr cwpan RhCT mewn gêm derfynol gyffrous iawn! Roedd Garth Olwg wedi dod nôl o golli 1-0 hanner amser wrth i Fryn Celynnog arwain yn gynnar gyda gôl gan Sophie Thomas. Er hyn, llwyddodd Garth Olwg i sicrhau buddugoliaeth gan ennill 3-1 wrth i Cari Maidment gael hatrig yn yr ail hanner! Roedd pêl-droed da iawn wedi cael ei chwarae gan y ddau dîm mewn gêm o ddau hanner. Mae nifer o'r merched o'r ddau dîm yn gyfarwydd iawn â chwarae yn erbyn ei gilydd i glybiau lleol ac i'r sir, ac roedd y gêm yn hysbyseb dda i bêl-droed merched yn RhCT. Llongyfarchiadau hefyd i Flwyddyn 9 a 10 ar ennill ei gêm gynderfynol yn erbyn Rhydywaun. Byddant yn herio Treorci yn y gêm derfynol ar ôl y Sulgwyn.

Gan Cari Maidment, Blwyddyn 8.

Twrnamaint 7 pob ochr yr Urdd

Cyrhaeddon ni yno ben bore ac roedd yr ornest gyntaf yn erbyn Maes y Gwendraeth. Llwyddon i'w curo nhw o 4 cais i ddim. Yna, chwaraeon ni Islwyn. Ennill oedd hanes y gêm hon hefyd. Yna gwnaethon chwarae Esgob Llandaf a'r Olchfa gan eu curo nhw hefyd! Roedden ni yn y 'play off' oherwydd ein bod wedi ennill ein gemau ac roedd yn rhaid i ni chwarae Ysgol San Ioan a gwnaethon ni drechu nhw hefyd. Roedd pawb yn gwenu am ein bod ni wedi cyrraedd y chwarteri. Enillon ni'r chwarteri 38-7 yn erbyn y Dderwen. Y rownd gynderfynol oedd hi nesaf, a'r gêm bwysicaf. Roedd hon yn erbyn y Pant. Doedd pethau ddim yn edrych yn dda arnom ni achos roedden ni'n colli ond llwyddon ni i ddod nôl â'r gêm yn gyfartal ond colli bu ein hanes. Roedd hi'n ddiwrnod arbennig o rygbi. 3ydd yng Nghymru!

Gan Joey Williams, Blwyddyn 7

Llongyfarchiadau i Callum Nichols, Blwyddyn 10 a fu'n chwarae criced dros Gymru o dan 15 ar ddiwedd mis Mai yn erbyn tîm merched academi Lloegr. Llwyddodd tîm Cymru ennill o 53 rhediad.

Llongyfarchiadau i Eurion John, Blwyddyn 7 a enillodd 3 medal aur mewn amryw o gystadlaethau yng nghanol Mai. 1af yn Ne Cymru a Chymru am y ddisgen, 1af yn Ne Cymru ac 2il yng Nghymru yn y waywffon a 1af yn y naid hir dros Dde Cymru. Rwyt ti'n fachgen talentog iawn Eurion ac mae'r gwaith caled yn talu ar ei ganfed!



Llongyfarchiadau i Mae Davies o flwyddyn 8 am gymryd rhan yng nghystadleuaeth ICU y byd yn Florida dros y Pasg. Dyma oedd y tîm pom iau cyntaf i gynrychioli Cymru a daethant yn 7fed yn y byd!

Da iawn Paige Ward a Millie Davies, Blwyddyn 7 am ennill y gynghrair a chwpan y gynghrair gyda thîm pêl-droed merched Y Tyllgoed.

Llongyfarchiadau i nifer o ferched yr ysgol sydd yn chwarae pêl-rwyd dros Lanilltud Faerdref a lwyddodd i gipio'r 2il safle yng nghystadleuaeth Plât Cymru ym Mangor. Da iawn chi ferched!

Da iawn i dîm 7 pob ochr Blwyddyn 7 ac 8 am gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth ysgolion Pontypridd ac i Flwyddyn 9 am ddod yn drydydd.

10:00 – 16:00
13.07.19
PARTI PONTY
@ Gartholwg
Mae Parti Ponty yn dod i Ganolfan Garth Olwg!
13/07/2019
10:00 - 16:00
Am Ddim
Elin Fflur - Mei Gwynedd - Martyn Geraint
Gweithgareddau i Blant - Côr yr Einion - Parti'r Efail - Côr Godre'r Garth
Siaradwyr: Vaughan Roderick, Rhuanedd Richards ac Osian Rhys, Gwenno Rees

Nadolig
gydag
AL LEWIS
a'r band
29/11/19 . 7:30pm
Tocynnau'n gwerthu'n gyflym!
CANOLFAN GARTH OLWG
@GARTHOLWGLLC
01443 570 075
GARTH-OLWG.CYMRU
CF38 1RQ